

Bwletin Awdurdod S4C Mawrth 2000

Fe gynhaliodd yr Awdurdod gyfarfod agored yn Theatr Clwyd, yr Wyddgrug, ar 24 Chwefror 2000, a'i gyfarfod busnes yn swyddfeydd Cyngor Sir y Fflint, ar 25 Chwefror 2000.

Y Cyfarfod Agored

Ar nos Iau, 24 Chwefror, fe gynhaliodd yr Awdurdod ei gyfarfod cyhoeddus agored mwyaf diweddar. Roedd nifer dda yn bresennol, gyda oddeutu 80 o'r cyhoedd yn mynd i'r drafferth i ddod i drafod a chyfleu eu barn am wasanaeth S4C.

Yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod, Elan Closs Stephens, bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Roedd Aelodau eraill yr Awdurdod hefyd yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod.

Roedd y drafodaeth, a aeth ymlaen dros ddwy awr, yn un eang a bywiog. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:

Sut oedd S4C yn hybu ei hun

Holwyd sut yr oedd S4C yn mynd ati i hybu ei hun, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oedd yn bosibl i dderbyn teledu Cymreig a Chymraeg ar analog. Eglurodd Elan Closs Stephens ei bod hi'n anodd i S4C estyn allan at gynulleidfaoedd Cymreig a Chymraeg yn y fath ardaloedd. Yn arbennig, nid oedd y papurau newydd cenedlaethol yn rhoi sylw teilwng i'r sianel yn eu cylchgronau teledu wythnosol nac yn yr amserlenni oedd yn ymddangos yn ddyddiol. Roedd hyn yn fater yr oedd S4C yn dyfalbarhau i wella arno.

S4C ar Loeren

Symudodd y drafodaeth ymlaen i roi sylw penodol i'r ffaith nad oedd rhai ardaloedd yn y Ddwyrain yn gallu derbyn S4C ar analog. Dywedodd Elan Closs Stephens bod hyn wedi bod yn broblem barhaol i S4C. Cyfeiriodd Huw Jones at y ffaith mair ateb mwyaf ymarferol i'r broblem oedd teledu lloeren. Soniodd aelodau'r cyhoedd eu bod, ar y cyfan, yn ymwybodol o hyn, ond roedd y gost o gael lloeren yn rhwystr i rai pobl; roedd pobl yn eu henoed yn arbennig yn ei chael hi'n anodd i'w fforddio. Cydymdeimlodd Elan Closs Stephens â hyn. Soniodd bod y Llywodraeth yn sôn yn aml am ddieithriad cymdeithasol ac awgrymodd fod hyn yn fater i'r Llywodraeth. Roedd angen codi'r mater hwn o ddifrif gyda gwleidyddion yn gyffredinol yn ogystal â'r Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn Llundain, sy'n gyfrifol am bolisi'r Llywodraeth ar ddarlledu dros y Deyrnas Unedig.

Is-deitlo

Cyfeiriodd y gynulleidfa at ba mor ddefnyddiol oedd is-deitlau ar raglenni S4C. Er hynny, teimlwyd nad oedd y Sianel yn darparu'r gwasanaeth mor eang ag y gallai. Rhoddwyd yr esiampl o *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol*, lle awgrymwyd y dylid darparu is-deitlau ar gyfer y cyfweiliadau a gynhaliwyd yn ystod y rhaglen. Derbyniodd Huw Eirug y sylwadau a wnaethpwyd ac addawodd ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i'r gwasanaeth is-deitlo.

Ail-amserlennu Rhaglenni

Cododd aelodau'r gynulleidfa y ffaith ei fod yn rhwystredig iawn i geisio dyfalu pryd fyddai rhaglenni Channel 4 yn cael eu hail-amserlennu ar S4C. Soniodd Huw Eirug bod S4C yn ceisio bod yn gyson wrthi amserlennu rhaglenni. Er enghraifft, os taw am 9.00 o'r gloch ar nos Fawrth yr oedd cyfres yn dechrau cael ei darlledu, dyna'r noson a'r amser y byddai rhaglenni gweddill y gyfres yn cael eu darlledu; ond derbyniodd fod eithriadau o bryd i'w gillydd am resymau ymarferol. Cyfeiriodd Elan Closs Stephens at y ffaith bod yna dudalen ar Sbectel oedd yn rhoi gwybodaeth am ail-amserlennu rhaglenni Channel 4 ar S4C.

Gogledd Ddwyrain Cymru ar S4C

Teimlodd y gynulleidfa'n gryf bod Gogledd Ddwyrain Cymru dros y blynyddoedd diwethaf wedi ei esgeuluso, yn enwedig yn y maes drama. Roedd ardaloedd Gwynedd, Cymoedd y De, Abertawe a Chaerdydd wedi'u hadlewyrchu ar y sgrîn; nid felly y Gogledd Ddwyrain. Rhoddwyd esiampl benodol arall, sef y rhaglen *Canrif y Werin*, lle mai prin iawn oedd unrhyw gyfraniadau oddi wrth bobl yn yr ardal hon, ardal lle'r oedd yna ddigon o bobl Cymraeg eu hiaith gyda hanesion diddorol a allai fod wedi cyfrannu. Teimlwyd bod pobl y Gogledd Ddwyrain wedi'u hanghofio gan S4C. Derbyniodd Elan Closs Stephens y sylwadau a wnaethpwyd a phwysleisiodd taw dyma un o'r rhesymau yr oedd Awdurdod S4C yn cynnal cyfarfodydd agored yn y gwahanol ardaloedd yng Nghymru, sef er mwyn clywed barn ei chynulleidfaoedd ledled y wlad.

Cydnabu Huw Eirug yr hyn a gyflëwyd gan y gynulleidfa. Credai taw'r prif reswm dros y sefyllfa oedd tueddiad y cwmnïau oedd yn cyflenwi rhaglenni S4C i adlewyrchu eu hardaloedd hwy eu hunain yn eu cynyrchiadau. Yn anffodus, dim ond un cwmni cynhyrchu oedd yn bodoli yn y Gogledd Ddwyrain. Yn ogystal, roedd yn rhaid i S4C ddewis y sgriptiau gorau oedd yn cael eu cynnig iddi. Wedi dweud hyn, derbyniodd Huw Eirug y sylwadau a wnaethpwyd a byddai'n eu cadw mewn cof ar gyfer y dyfodol.

Problem arall roedd pobl y Gogledd Ddwyrain yn dioddef ohono oedd y diffyg cyfle i ymuno fel aelodau o gynulleidfaoedd pan oedd rhaglenni yn cael eu recordio. Gan nad oedd rhaglenni, yn enwedig rhai megis cyngherddau, yn cael eu recordio yn eu hardal nhw, roedd yn rhaid iddynt deithio tipyn o bellter er mwyn cael bod yn bresennol. Roedd pobl yn diflasu ar orfod gwneud hyn dro ar ôl tro ac yn y diwedd yn rhoi'r gorau iddi. Awgrymwyd y byddai Theatr Clwyd yn lleoliad delfrydol ar gyfer recordio rhaglenni. Unwaith eto, derbyniodd Huw Eirug y pwynt a wnaethpwyd a soniodd y byddai'n codi'r mater gyda'r cwmnïau cynhyrchu yn ei drafodaethau gyda nhw.

'Yr Un Hen Wynebau'

Holwyd os oedd yna reswm dros yr un actorion yn ymddangos mor aml ar raglenni S4C. Cyfeiriodd Huw Jones at y ffaith fod hyn yn gwyn oedd yn mynd yn ôl cyn sefydlu S4C. Un o'r rhesymau oedd bod cwmnïau yn dymuno cyflogi'r actorion gorau oedd ar gael. Roedd ganddo gydymdeimlad hefyd ag actorion a oedd yn dibunnu ar gael gwaith cyson er mwyn sicrhau bywoliaeth. Rheswm arall am weld actorion mor aml oedd bod S4C yn darparu mwy o ddrama nag oedd yn y gorffennol. Roedd S4C, fodd bynnag, yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa. Credai un aelod o'r gynulleidfa fod yna actorion da ar gael nad oeddent yn cael cynnig gwaith, tra roedd eraill i'w gweld yn or-gyson.

Rhaglenni Penodol

Cynigodd aelodau'r cyhoedd sylwadau ar rai rhaglenni penodol:

Pam fi Duw - Teimlwyd fod angen gwella ar safon y Gymraeg yn y gyfres hon. Ymatebodd Elan Closs Stephens trwy ddweud fod gan S4C ganllawiau iaith ar gyfer rhaglenni oedd yn caniatáu hyblygrwydd golygyddol yn ôl natur ac amcanion rhaglenni unigol. Er enghraifft, roedd yna ddisgwyl i'r Gymraeg mewn rhaglen fel y *Newyddion* fod yn gywir a graenus. Roedd rhaglen fel *Pam fi Duw* ar y llaw arall yn ceisio adlewyrchu rhai plant oedd yn dod o ysgolion dwyieithog yng nghymoedd diwydiannol y De. Ychwanegodd Huw Eirug fod yna ddyletswydd ar ddarlledwr i adlewyrchu'r wlad yr oedd yn darlledu iddi. Cydnabuwyd yr hyn a ddywedwyd ond teimlai'r aelod o'r cyhoedd a gododd y pwynt bod *Pam fi Duw* wedi mynd tu hwnt i ffin yr hyn oedd yn dderbyniol.

Byd Pws – Canmolwyd y rhaglen hon gan aelod ifanc o'r gynulleidfa a soniodd bod nifer o'i ffrindiau hefyd yn hoff iawn ohoni. Teimlwyd ei bod hi'n drueni fod y gyfres wedi dod i ben mor fuan. Roedd Huw Eirug yn falch iawn i glywed fod y rhaglen wedi plesio ac addawodd y byddai cyfres arall.

Oriau Darlledu Estynedig

Holwyd os oedd yna fwriad i ymestyn y nifer o oriau o raglenni Cymraeg S4C. Cyfeiriodd Elan Closs Stephens at y ffaith bod S4C bellach yn darlledu 12 awr y dydd ar S4C Digidol, sef oddeutu teirgwaith y nifer o oriau a ddarlledir ar analog; a hynny wedi'i gyflawni heb unrhyw arian ychwanegol wedi'i dderbyn oddi wrth y Llywodraeth.

Rhaglenni Addysg Gydol Oes

Tynnodd aelod o'r gynulleidfa sylw at y tueddiad dros y deng mlynedd diwethaf i bobl ymdeol yn gynnar. O ganlyniad roedd yna gynnydd yn y gynulleidfa hŷn oedd yn gwyllo teledu yn ystod y dydd a nifer o'r rheini â diddordeb mewn rhaglenni addysg barhaol. Gofynnwyd os oedd gan S4C gynlluniau i ateb y fath alwad yn y dyfodol. Cyfeiriodd Elan Closs Stephens at ddatblygiad y Coleg Digidol a fyddai yn cychwyn adeg yr Hydref. Byddai'r gwasanaeth hwn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer addysg barhaol a phellach.

Cyfarfod Busnes yr Awdurdod

Yng nghyfarfod busnes yr Awdurdod y diwrnod canlynol y materion dan sylw oedd:

Cais am Nawdd

Ystyriodd yr Awdurdod cais am nawdd oddi wrth Fudiad Ffermwyr Ifanc Cymru tuag at waith y Mudiad ym myd y celfyddydau llwyfan. Roedd cefnogaeth S4C i'r Mudiad y flwyddyn flaenorol wedi cynorthwyo'r Mudiad i gynnal cwrs ysgrifennu creadigol; sawl seswin hyfforddi gydag aelodau'r Mudiad o bob cwr o Gymru; a nifer o gyrsiau lleol i ddysgu sgiliau theatr, megis actio, goleuo ac yn y blaen. Prif ffocws y gweithgareddau oedd cystadleuaeth Pantomeim yn y Saesneg a Ffars yn y Gymraeg. Cafwyd amlinelliad o gynlluniau cyffelyb ar gyfer y flwyddyn bresennol.

Cytunwyd bod amcanion celfyddydol y Mudiad yn cefnogi gwaith y Sianel yn y tymor hir a chytunwyd i roi nawdd o £5,000 i'r Mudiad.

Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni

Ystyriodd yr Awdurdod berfformiad y rhaglenni canlynol:

- *Heno*
- *Dudley*
- *Glan Clwyd*
- *Pacio*
- *Pengelli*
- *Byd Pws*
- *I Dot*
- *Pawb a'i Farn*
- *Ar y Bocs*
- *Yma Mae Nghân*
- *Canrif y Werin*
- *Sioe Gelf*
- *John 10%*
- *Palmant Aur*

Bydd yna asesiad o berfformiad rhaglenni S4C yn yr Adroddiad Blynyddol.

Ar ôl trafod yr uchod, manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i longyfarch y Cyfarwyddwr Rhaglenni a phawb a fu'n gysylltiedig â'r ffilm *Solomon a Gaenor* ar yr enwebiad ar gyfer Oscar. Nodwyd taw hwn oedd y pedwerydd enwebiad ar gyfer Oscar mewn deng mlynedd; roedd hyn yn dipyn o gamp i unrhyw gwmni heb sôn am gorff cymharol fach fel S4C. Dymunwyd pob lwc ar gyfer y noson wobrwyo.

Adolygiad o Berfformiad S4C yn 1999

Ystyriodd yr Awdurdod adroddiad ar berfformiad S4C yn erbyn y targedau yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 1999. Roedd S4C wedi cwrdd neu wedi gwneud yn well na'r mwyafrif o'i thargedau, er roedd rhai lle na chyrhaeddwyd y nod. Byddai'r elfennau mwyaf pwysig o'r adolygiad yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Blyneddol a fyddai'n cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.

Llywodraeth Gorfforaethol a Systemau Rheoli

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i adroddiad ar lywodraeth gorfforaethol a systemau rheoli S4C yn enwedig o ystyried yr argymhellion yn adroddiad Turnbull am ymarfer da. Cytunwyd y dylid ei fabwysiadau fel arf defnyddiol i sicrhau bod gan yr Awdurdod y trefniadau cryfaf posibl ar gyfer holl systemau rheoli S4C. Cytunwyd hefyd fod y rhan fwyaf o'r trefniadau wedi'u sefydlu eisoes, ond bod angen adolygu strwythur swyddogaethau ac aelodaeth pwyllgorau'r Awdurdod, er mwyn i'r Awdurdod fonitro a gwerthuso'r system rheoli bob blwyddyn yn y modd mwyaf effeithiol.

Adolygiad a Ariannu'r BBC

Trafodwyd adolygiad ariannu'r BBC a chyhoeddiad Chris Smith, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Nodwyd y byddai cost y drwydded teledu yn codi £3 y flwyddyn, sef codiad o 1.5% dros chwyddiant. Nodwyd hefyd disgwyliad y Llywodraeth bod y BBC yn dod o hyd i arbedion ac incwm masnachol sylweddol. Cytunwyd bod penderfyniad y Llywodraeth yn ategu dadleuon S4C ei hun dros sicrhau cynnydd yn ei gyllid cyhoeddus i sicrhau bod gwasanaethau o'r safon uchaf posibl ar gael yn y Gymraeg i wynebu'r gystadleuaeth yn yr oes ddigidol. Roedd hyn yn enwedig o wir o ystyried, yn wahanol i ddarlledwyr eraill, na chafodd S4C agynydd ariannol i'w chynorthwyo i gyflwyno teledu digidol.

Cyfarfod gyda Chyngor Darlledu Cymru'r BBC

Cadarnhawyd bod trefniadau wedi'u gwneud i Aelodau S4C gyfarfod gydag Aelodau Cyngor Darlledu'r BBC ar nos Iau, 31 Mawrth 2000, yng nghanolfan S4C.

Materion Eraill

Derbyniodd yr Aelodau yr adroddiadau arferol ar y canlynol:

- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 28 Ionawr 2000
- Cydymffurfio â chodau rhaglenni
- Cyllidebau S4C.

Cyfarfodydd yn y Dyfodol

Bydd yr Awdurdod yn cynnal ei gyfarfodydd busnes arferol yng Nghaerdydd ym misoedd Mawrth ac Ebrill. Cynhelir ei gyfarfod cyhoeddus nesaf yn y Canolfan am 7.00 p.m. ar 25 Mai 2000 – mae'r union leoliad i'w benderfynu.

SMH/MN3W12